**CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED**
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 7.30 y.h. ar Nos Lun 20.07.2026
Yn Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed
**Yn Bresennol:** Cyng. Delme Phillips(Is-Gadeirydd), , Cyng. Elfed Davies, Cyng. Eifion Jones, Cyng. Bryan Davies, Cyng. Aled Jones a'r Cyng. Robin Bowen.
**Clerc:** Enid Davies
**Cyfieithydd:** Hefin Jones

**Heddlu Dyfed-Powys:** Mynychodd y Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) Martin Dickensen a'r PCSO Joanna Phillips sesiwn holi ac ateb a gynhaliwyd ar ddechrau'r cyfarfod.
**Ymddiheuriadau:** Cyng. Amy Evans a'r Cyng. Julian Evans.
Yn absenoldeb y Cyng. Amy Evans (Cadair), cadeiriodd yr Is-Gadeirydd Cyng. Delme Phillips y cyfarfod. Croesawodd y Cyng. D. Phillips bawb a oedd yn bresennol, yn ogustal â PCSO Martin Dickensen a'r PCSO Joanne Phillips, a oedd wedi dod I'r cyfarfod ar gais y Cyngor. Rhoddodd y PCSO M. Dickensen grynodeb o dueddiadau troseddau yn yr ardal. Hysbysodd y PCSO J.Phillips y Cyngor am "Cyswllt Dyfed-Powys Connects", gwasanaeth negeseuon newydd lle gall y cyhoedd anfon negeseuon ynghylch pryderon lleol, e.e. materion yn ymwneud â goryrru, neu ofyn am gyngor diogelwch. Eglurodd nad yw'r system hon ar gyfer adrodd am drosedd benodol. Rhaid i'r cyhoedd barhau i ffonio 999 mewn argyfwng. Cafwyd sesiwn fer o gwestiynau ac atebion, a chafodd y Cyngor foddhad o glywed bod swyddogion Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i ymweld ag ysgolion ac ymgysylltu â disgyblion rhwng 5 ac 16 oed i gynnal gwersi ar atal troseddau a diogelwch. Diolchodd y Cyng. Delme Phillips, ar ran y Cyngor, i'r swyddogion am eu hamser ac am y wybodaeth ddiddorol a gwerthfawr a rannwyd ganddynt ynghlch plismona yn ardal Cynwyl Elfed.

**31.Datgelu Buddianau Personol:**
Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Cyngor a oedd ganddynt unrhyw fuddiannau i'w datgan yn y busnes i'w drafod - dim.
**32. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfodydd diwethaf.**
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15.06.26 yn gopi cywir - cynigiwyd gan y Cyng. R. Bowen ac eiliwyd gan y Cyng. A. Jones.
**33.Materion i'w hadrodd**
a. Materion Priffyrdd: - gweler o dan adroddiadau materion priffyrdd.
b. Cyfleusterau Cyhoeddus a Neuadd Cynwyl Elfed -.gweler o dan adroddiadau is-bwyllgorau.
c. Cynhadledd Genedlaethol Un Llais Cymru - mynychodd y Cyng. Bryan Davies a roddodd adroddiad i'r Cyngor o'r cyfarfod a rhannodd wybodaeth a gasglwyd ganddo yn y cyfarfod gyda'r Cyngor.
d. Cwyn Ffurfiol i'r Ombwdsmon - Derbyniwyd llythyr oddi wrth Ombwdsmon Cymru yn hysbysu'r Cyngor eu bod wedi penderfynu peidio ag ymchwilio i'r mater.
e.Hysbysfwrdd Hermon - Roedd y Cyng. E.D. a'r Cyng. B.D. wedi bod i asesu cyflwr yr hysbysfwrdd - penderfynwyd y byddai'r Cyng. B.D. yn atgyweirio'r hysbysfwrdd. Os na all ei atgyweirio, bydd y Cyngor yn edrych ar y mater eto.
f. Batris ar gyfer diffibrilwyr Cynwyl Elfed CU SP1 y Swyddfa Bost a Neuadd y Pentref: adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn dau fatri newydd a'i bod wedi mynd gyda'r wirfoddolwr E. Tipping pan aeth i newid batris a oedd wedi mynd heibio eu Dyddiad Diwedd Gwasanaeth. Mynegodd y Cyngor eu diolchgarwch am y gwaith a wnaed gan Emma Tipping wrth wirio'r holl ddiffibrilwyr yn yr ardal i helpu sicrhau eu bod yn barod ar gyfer argyfwng.

**34.Gohebiaeth.**

*Nodir bod copïau o'r e perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr drwy e-byst.*

- Llythyr gan breswylydd lleol yn gofyn am archwiliad ffyrdd, archwiliad pontydd ac yn tynnu sylw at amryw o ddiffygion a restrir ganddo - Mae'r Cyngor yn deall bod peirianwyr ffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin yn archwilio'r ffyrdd gan gynnwys yr A484 a'r pontydd yn rheolaidd. Penderfynodd y Cyngor anfon y cais ymlaen at yr adrannau perthnasol yn ei adroddiad i'r Cyngor Sir ar faterion sydd angen sylw.
- Llythyr gan breswylydd lleol yn gofyn am rwystrau cyflymder yng Nghwmduad - Y clerc i gysylltu â'r anfonwr gan nad oes unrhyw fanylion wedi'u cynnwys ar wahân i'r cyfeiriad e-bost ac enw'r anfonwr, am ragor o wybodaeth. Penderfynwyd gan y Cyngor y dylai'r clerc gysylltu â Gan-Bwyll i ofyn am i'r camera cyflymder fod yn bresennol yn rheolaidd yng Nghwmduad.
- Cyngor Sir Gâr a Chymdeithas y Cerddwyr *-.mae angen gwirfoddolwyr i gerdded ac archwilio llwybrau troed - nodwyd.*
- *Trefniadau Ailgylchu Newydd Cyngor Sir Caerfyrddin - bydd hyn yn effeithio ar yr ardal cod post lleol - er nad oes unrhyw fanylion wedi'u derbyn hyd yma gan breswylwyr af fydd yn cael eu heffeithio gan y newid - y clerc i gysylltu â'r sir am ragor o fanylion.*
- *Cyngor Sir Caerfyrddin* - Asesiad o Lesiant Lleol - Nodwyd.

• *Un Llais Cymru Cynhadledd Arfer Arloesol 30.09.26* -Cyhoeddodd y Cyng. B.D. ei fod wedi ennill dau docyn ar gyfer y gynhadledd hon - penderfynodd y Cyngor bod y Cyng. B.D. a'r Cyng. D.P. i fynychu ar ran y Cyngor.

**35.Cynllunio**

**PL/11015** - Estyn ardal y cwrt presennol ac adeiladu garej ar wahân yn y cwrt newydd - Yr Hafod Llwyd, Hermon, Carmarthen, SA33 6SR - Cysylltwyd â chynghorwwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori, a phenderfynodd y Cyngor gefnogi'r cais.

**36.Taliadau a Chyllid**

**Taliadau:**

- Maria Thomas Mehefin 2026 £230.00, Gorffennaf 2026 £230.00 ac Awst 2026 £230.00
- ME Davies Cyflog clerc 06/26 a taliad ôl-weithredol £632.50
- H.M.R.C. Cwarter (1) 2026/27 05/07/26 £381.86
- ME Davies (Defib Store. Batris ar gyfer CUSP1 Cynwyl Elfed x2). £492.00
- EDF Trydan Mehefin 2026 £ 41.10
- W3 Web Design Taliad Blynyddol £169.00
- .Bevan Buckland (Archwiliad Mewnol) £370.00 + VAT

Bu cynnydd yn y gost oherwydd yr amser ychwanegol a dreuliwyd yn cynnal yr archwiliad.
The Council approved that the appove payments be made. Maria Thomas Mai 2026 £195.50

*Cymeradwyodd y Cyngor y taliadau uchod.*

**Adnewyddu Contract Trydan:**
**Tariffau EDF a 2 gwmni arall**

Mae'r contract presennol I ddod I ben ar 18 Medi 2026. Cafwydd dyfynbrisiau ar gyfer contract 3 blynedd yn uniongyrchol gan EDF, yn ogystal ag oddi wrth Bionic Business Comparison ac Octopus Energy. Penderfynodd y Cyngor ddewis y dyfynbris ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yn uniongyrchol gan Trydan EDF. Tâl sefydlog o 50c y dydd, cyfradd uned o 29.1c fesul kWh, a bil misol amcangyfrifedig o £44.50. Nid yw'r defnydd o drydan wedi bod yn uchel iawn dros y ddwy flynedd ddiwethaf ers i'r gwresogyddion gael eu

gwasanaethu a synwyryddion PIR gael eu gosod. Bydd y Clerc yn trefnu i Fesurydd “smart meter” gael ei osod.

**Archwiliad Mewnol - Casgliad ac argymhellion:**

Derbyniodd y Cyngor yr adroddiad Archwilio Mewnol, a gynhaliwyd gan Bevan Buckland Audit Ltd. Ar gyfer y flwyddyn 2025/26, a phenderfynodd gymryd camau yn unol â'r argymhellion a wnaed. Mae'r prif gasgliadau'n dangos bod amcanion rheoli wedi'u gwerthuso a'u bod yn foddhaol. Nodwyd tri argymhelliad ar gyfer camau i'w cymryd er mwyn lliniaru risgiau posibl.

1. Mae dyddiad rhai sieciau a ysgrifennwyd cyn y dyddiad a gymeradwywyd yn y Cyngor - *Penderfynwyd adolygu'r trefniadau talu i sicrhau bod strategaeth ar waith i ddelio â thaliadau sy'n dod yn ddyledus er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Ariannol y Cyngor.*
2. *Nid yw'r gyfradd fesul awr a delir i'r Clerc yn cydfynd â chyfraddau SLCC - Argymhellir bod cyfradd tâl y clerc yn cael ei hasesu a'i alinio â chyfraddau'r SLCC.*
3. *Mae Rheoliadau Ariannol P.2.6 yn nodi y bydd aelod a'r Cadeirydd yn cael eu penodi o leiaf unwaith y mis i wirio cysoniadau banc a fydd yn cynnwys llofnodi a dyddio'r datganiadau banc gwreiddiol. Er bod y ffurflen gysoniad Banc wedi'i llofnodi, nid oedd y datganiad wedi'i lofnodi. Penderfynodd y Cyngor sicrhau bod y datganiadau hefyd yn cael eu llofnodi ar yr un pryd er mwyn cydymffurfio â'i reoliadau ariannol o hyn ymlaen.*

**Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol a'r Datganiad Cyfrifyddu.**

• Adolygodd y Cyngor Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Ffurflen Flynyddol a phenderfynu cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

• Ystyriodd y Cyngor y Datganiadau Cyfrifyddu a ardystiwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol (Enid Davies) a phenderfynodd gymeradwyo a mabwysiadu'r Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026. Cynigiwyd gan y Cyng. E. Davies ac eiliwyd gan y Cyng. E. Jones.

•Penderfynodd y Cyngor awdurdodi'r Cyng. Delme Phillips Is-gadeirydd(yn absenoldeb y Cyng. A. Evans) i lofnodi'r blwch cymeradwyo priodol ar y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 ar ran y Cyngor.

***ADOLYGIAD - CYSONI DERBYNIADAU A THALIADAU***

Adolygwyd y cyfrifon hyd at 30 Mehefin 2026 gan y Cyng. Delme Phillips a nodwyd eu bod yn ymddangos yn gywir gan arwyddo'r gwaith cysoni cyfrifon a'r datganiadau banc i gadarnhau bod hyn wedi'i wneud.

**37.Materion Priffyrdd:**

**Diweddariad ar materion adroddwyd ar 15.06.26**

- Trwsiwyd y falf cau dŵr ger Pont Esgair.
- Derbyniwyd adroddiad peiriannydd ynghylch y bont ger Eglwys St. Cynwyl - hysbyswyd y Congor bod y bont yn eiddo preifat a bod y briffordd gyhoeddus U5474 yn dod i ben cyn y bont. Cynhaliwyd archwiliad gan y peiriannydd a chanfuwyd bod y bont wedi'i difrodi; hysbyswyd y Cyngor Cymuned. Bydd y Clerc yn hysbysu'r perchnogion posibl - y rhai sydd â hawl i ddefnyddio'r bont a chyfrifoldebau cynnal a chadw'r bont am ganfyddiadau'r peiriannydd.

***Materion Priffyrdd adroddwyd ar 20.07.26***

***a)*** C2043 Cynwyl Elfed - Penrhiwcrynfryn: Mae ymylon y ffordd ar yr ochr chwith wedi erydu, gan wneud y ffordd yn gulach mewn mannau.

***b)*** A484 Ty Coch - Cwmduad: twll Mawr ar ochr y ffordd ar y tro ychydig is lawr o Nantyclawdd.
***c)*** Cwmduad - mae angen palmant wrth Ymyl rhan o'r A484 yn Cwmduad.
***d)*** SA33 6EY - ger Green Villa; arwyneb y ffordd yn Wael iawn gyda nifer o dyllau.
***e)*** SA33 6UD - ffordd ger y fynedfa i Penlanchwilor - mae'r ffordd wedi suddo.
***f)*** C1313 Ffordd I'r Fynwent - mae cyflwr arwyneb y ffordd yn ofnadwy.
***g)*** SA33 6ST Ffordd U5463 - Mae'r ffordd mewn cyflwr Gwael iawn rhwng y man ychydig cyn bont Nant yr Esg a Clungwyn.

**38. Adroddiadau gan Is-Bwyllgorau a Sefydliadau**

- **Cyfleusterau Cyhoeddus:**
- Dim byd newydd i adrodd.
- **Cae Chwarae Bro Elfed:**
- Bydd digwyddiad codi arian ar thema Carnifal ar gae'r ysgol ar 15/08/2026.
- Mae holiaduron wedi'u dosbarthu ledled yr ardal yn gofyn i bobl sut yr hoffent weld y parc yn cael ei ddatblygu. Unwaith y bydd yr holiaduron wedi'u cwblhau a phenderfyniadau wedi'u gwneud, bydd y pwyllgor yn gwneud cais am arian grant sydd ar gael.
- Dywedodd y Cyng. R.B. wrth y cyfarfod fod angen mwy o wirfoddolwyr ar Bwyllgor y Parc i helpu.

**Canolfan Cymdeithasol Cynwyl Elfed**

Mae'r Neuadd ar agor bob bore Sadwrn rhwng 10:00 a 12:00 canol dydd i wirfoddolwyr lanhau a gwneud gwaith i gynnal a chadw'r neuadd.

**39.Unrhyw Fater Arall.**

- **Polisi Cwynion (2025)-** Mae'r Clerc wedi cael polisi cwynion enghreifftiol (2025) gan Un Llais Cymru ac mae hwn wedi'i addasu ar gyfer Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed. Mae Cynghorwyr wedi cael amser i ddarllen y ddogfen. Penderfynodd y Cyngor fabwysiadu'r Polisi Cwynion yn dilyn cynnig gan y Cyng. B.D. ac eiliwyd gan y Cyng. R.B.
- **Hybysebu am clerc newydd.** Mae'r clerc wedi paratoi hysbyseb ar gyfer clerc newydd. Bydd y Clerc yn hysbysebu'n lleol a drwy Un Llais Cymru a gyda'r SLCC.

**40. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

Cynhelisr y Cyfarfod Misol nesaf ar: Nos Lun, **21 Medi 2026**
am**: 7:30** yr hwyr**.**

Daeth y cyfarfod i ben am 21.50 o'r gloch.

……………………………………………………………
Cyng. A. Evans (Cadeirydd)

……………………………………………………………
Dyddiad.